



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 28: wythnos 26/07/2021

Cynnydd Wythnosol (19 - 26 Gorffennaf)

Rydym nawr wedi brechu 88% o boblogaeth y Bwrdd Iechyd gyda'r dos cyntaf ac yn gwneud cynnydd da o ran yr ail ddosau gyda 87% o bobl dros 30 oed wedi'u brechu'n llawn.

Bellach, rydym yn anfon gwahoddiadau'r ail ddos i'r rheiny rhwng 18-29 oed, felly dylech gael eich gwahoddiad yn ystod y rhai wythnosau nesaf.

JCVI yn cyhoeddi cyngor ar roi'r brechiad COVID-19 i blant a phobl ifanc

Yn dilyn y cyhoeddiad ac argymhellion diweddar gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio ynghylch cymeradwyo rhoi'r brechiad COVID-19 i'r rheiny rhwng 12 a 17 oed, bydd y rhai sydd mewn risg uwch o COVID-19, a phawb a fydd yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed cyn pen deuddeg wythnos bellach yn gymwys i dderbyn y brechiad.

Hoffem roi sicrwydd i'n trigolion y byddwn yn cysylltu â phawb sy'n bodloni'r meini prawf wedi'u diweddarau i gynnig apwyntiad dros yr wythnosau nesaf. Gofynnwn i chi beidio â chysylltu â ni i wneud cais am apwyntiad, ond gofynnwn i chi sicrhau bod eich manylion chi neu'ch plentyn yn gywir gyda Phractis eich Meddyg Teulu. Anelwn at hysbysu pob unigolyn o leiaf wythnos cyn ei apwyntiad ac anfonir llythyrau i'ch cyfeiriad cartref cofrestredig a gedwir gan eich Meddyg Teulu.

Byddwch yn ymwybodol y byddwn yn cynnal clinigau brechu pwrpasol i'r grŵp oedran hwn rhwng 9 - 11 Awst. Bydd manylion eich apwyntiad yn cael eu hanfon at eich cyfeiriad cofrestredig a dylech eu cael erbyn diwedd wythnos nesaf. Os na allwch fynychu'r apwyntiad yr ydych wedi'i gael, byddwn yn cynnig dyddiad arall i chi. Cymryd y brechlyn yw'r ffordd orau i amddiffyn eich hun a'ch anwyliaid rhag COVID-19

Am ragor o wybodaeth, ewch i: [JCVI yn cyhoeddi cyngor ar roi'r brechiad COVID-19 i blant a phobl ifanc - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 26/07/2021)

Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)

815,817

Cyfanswm y dos cyntaf 435,008

Cyfanswm yr ail ddos 380,809

Pobl 65 oed a'n hŷn



Grŵp 6 (Agored i Niwed)



Pobl 60-64 mlwydd oed



Pobl 55-59 mlwydd oed



Pobl 50-54 mlwydd oed



Pobl 40-49 mlwydd oed



Pobl 30-39 mlwydd oed



Pobl 18-29 mlwydd oed



Ddim yn gadael unrhyw un ar ôl...



Mae ymgyrch brechu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi bod yn llwyddiant ysgubol, gyda chyfraddau brechu yn gyfartal â'r gorau yn y byd. Wedi dweud hynny, mae aelodau o'n cymuned sy'n parhau i'w chael hi'n anodd ceisio lefelau digonol o ofal iechyd. Diolch byth, mae asiantaethau'r 3^{ydd} sector yn estyn allan ac yn cefnogi'r unigolion hyn i ymgysylltu â'n gwasanaethau.

Yn ddiweddar, cawsom y fraint o weithio mewn partneriaeth ag asiantaeth bartner o'r fath - The Wallich, sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi pobl ddigartref. Mae eu cefnogaeth yn cynorthwyo'r tîm brechu i frechu'r dinasyddion hyn wedi bod yn amhrisiadwy. Mae'r tîm yn Wallich wedi rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau arbenigol ac wedi cludo swyddogion brechu ym 'Mws The Wallich' i ddarparu brechlynnau lle bynnag mae galw amdanynt. Hoffem ddiolch i dîm The Wallich, nid yn unig am y gwaith hanfodol a wnânt bob dydd, ond hefyd am eu cefnogaeth yn brechu'r bobl hynny sy'n elwa fwyaf ohono.

Clinig Brechu Ail Ddos AstraZeneca

Byddwn yn cynnal clinigau galw heibio yn cynnig yr ail ddos i'r rheiny a gafodd eu dos cyntaf o'r AstraZeneca ar 4 Mehefin 2021, neu cyn hynny. Bydd angen i chi ddod â'ch cerdyn brechiad a phrawf adnabod gyda chi.

Manylion y clinigau:

Stadiwm Cwmbrân Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 3YS
Dydd Gwener 30 Gorffennaf 2021 Am: 8.30am – 4pm

Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent, Ffordd y Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6AA
Dydd Gwener 30 Gorffennaf 2021 Am: 8.30am – 4pm

Canolfan Hamdden Trecelyn Stryd y Bont, Trecelyn NP11 5FE
Dydd Gwener 30 Gorffennaf 2021 Am: 8.30am - 4pm

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: <https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020>

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: <https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

Ymunwch â'r miloedd
sydd wedi
cael eu brechu...
Ffoniwch 0300 303 1373
a byddwch yn cael
cynnig apwyntiad dos
cyntaf o fewn 72 awr.